



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 510 (Cy.46)

2008 No. 510 (W.46)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Cymorth
Lleoedd) (Mân Dreuliau)
(Diwygio) (Cymru)
2008

The Education (Assisted Places)
(Incidental Expenses)
(Amendment) (Wales) Regulations
2008

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) 1997 ("Rheoliadau 1997").

These Regulations further amend the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997 ("the 1997 Regulations").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran cwestiynau perthnasol sy'n codi mewn cysylltiad â blwyddyn ysgol 2007/08 ac sydd heb eu penderfynu ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Cwestiwn perthnasol yw cwestiwn sy'n ymwneud â hawl rhiant o dan Reoliadau 1997 i gael grant mewn cysylltiad â mân dreuliau sy'n gysylltiedig ag addysg plentyn a gynorthwyir mewn ysgol annibynnol.

The Regulations apply in relation to relevant questions that arise in respect of the 2007/08 school year and which have not been determined at the date on which these Regulations come into force. A relevant question is a question as to a parent's entitlement under the 1997 Regulations to a grant in respect of incidental expenses in connection with the education of an assisted pupil at an independent school.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prawf moddion (a ddisgrifir yn rheoliad 2 o Reoliadau 1997) ar gyfer penderfynu cymhwysedd i gael grant gwisg ysgol ac yn cynyddu swm y grant sy'n daladwy mewn cysylltiad â gwariant ar ddillad a dynnir yn y flwyddyn ysgol 2007/08. Mae £86 (yn lle £83 fel o'r blaen) yn daladwy pan na fo'r incwm perthnasol yn uwch na £12,864 (yn lle 12,470) ac mae £44 (yn lle £43) yn daladwy pan fo'r incwm perthnasol yn uwch na'r ffigur hwnnw ond nid yn uwch na £13,861 (yn lle £13,431).

These Regulations amend the means test (set out in regulation 2 of the 1997 Regulations) for determining eligibility to uniform grant and increase the amount of such grant payable in respect of clothing expenditure incurred in relation to the school year 2007/08. £86 (instead of £83 as previously) is payable where the relevant income does not exceed £12,864 (instead of £12,470) and £44 (instead of £43) is payable where the relevant income exceeds that figure but does not exceed £13,861 (instead of £13,431).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio hefyd y prawf moddion (a ddisgrifir yn rheoliad 4 o Reoliadau 1997) ar gyfer penderfynu cymhwysedd i gael grant teithio ac yn cynyddu swm y grant sy'n daladwy mewn cysylltiad â gwariant teithio ysgol mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2007/08. Pan na fo'r incwm perthnasol yn uwch na £12,877 (yn lle £12,473), bydd unrhyw grant teithio yn swm sy'n hafal i'r gwariant teithio ysgol y mae'n ymwneud ag ef. Pan fo'r incwm perthnasol yn uwch

These Regulations also amend the means test (set out in regulation 4 of the 1997 Regulations) for determining eligibility to travel grant, and increase the amount of grant payable in respect of school travel expenditure in relation to the school year 2007/08. Where the relevant income does not exceed £12,877 (instead of £12,473), any travel grant shall be an amount equal to the school travel expenditure to which it relates. Where the relevant income exceeds that sum,

na'r swm hwnnw, y grant teithio fydd y swm, os bydd un, y bydd y gwariant teithio ysgol y mae'n ymwneud ag ef yn uwch na swm (wedi ei dalgrynnu i lawr i'r lluosrif agosaf o £3) sy'n hafal i un rhan o ddeuddeg o'r rhan honno o'r incwm perthnasol sy'n uwch na £12,698 (yn hytrach na £12,304).

the travel grant will be the amount, if any, by which the school travel expenditure to which it relates exceeds an amount (rounded down to the nearest multiple of £3) equal to one-twelfth of that part of the relevant income which exceeds £12,698 (instead of £12,304).

2008 Rhif 510 (Cy.46)

2008 No. 510 (W.46)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Cymorth
Lleoedd) (Mân Dreuliau)
(Diwygio) (Cymru)
2008**

**The Education (Assisted Places)
(Incidental Expenses)
(Amendment) (Wales) Regulations
2008**

Gwnaed 26 Chwefror 2008

Made 26 February 2008

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cym* 27 Chwefror 2008

*Laid before the National
Assembly for Wales* 27 February 2008

Yn dod i rym 19 Mawrth 2008

Coming into force 19 March 2008

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(1), â'r cyrff hynny sy'n ymddangos iddynt hwy yn briodol a chynrychioliadol o ysgolion sydd o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno yn darparu lleoedd drwy gymorth, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 3(1), (3), (4), (5) a (9) o'r Ddeddf honno(2):

The Welsh Ministers, having consulted, in accordance with section 3(7) of the Education (Schools) Act 1997(1), such bodies as appear to them to be appropriate and representative of schools which provide assisted places under section 2(1) of that Act, makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 3(1), (3), (4), (5) and (9) of that Act(2):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 19 Mawrth 2008.

(2) Mae Rheoliad 3 yn gymwys o ran Cymru mewn cysylltiad â chwestiwn perthnasol.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2008 and they come into force on 19 March 2008.

(2) Regulation 3 applies in relation to Wales in respect of a relevant question.

(1) 1997 p. 59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(2) Yr oedd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a'r cofnod mewn cysylltiad â Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(1) 1997 c. 59. Section 3 was amended by section 130 of the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31).

(2) The functions of the Secretary of State under section 3 were exercisable by the National Assembly for Wales in relation to Wales: see article 2 of, and the entry in respect of the Education (Schools) Act 1997 in Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "cwestiwn perthnasol" yw cwestiwn o dan Reoliadau Addysg (Mân Dreuliau) 1997(1) ynghylch a oes gan rieni disgybl a gynorthwyir hawl i gael grant gwisg ysgol o dan Ran II, neu grant teithio o dan Ran III, o'r Rheoliadau hynny ac—

- (a) sy'n codi mewn cysylltiad â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007; a
- (b) sydd heb ei benderfynu ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2006

2. Ar ddiwedd paragraff (3) rheoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2006(2), mewnosoder "ar yr amod nad yw'r cwestiwn yn un y cyfeirir ato ym mharagraff (3) rheoliad 1 o Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2008".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) 1997

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Mân Dreuliau) 1997 fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 —

- (a) ym mharagraff (2), yn lle "£13,431", rhodder "£13,861";
- (b) ym mharagraff (3), yn lle is-baragraffau (a) a (b), rhodder—
 - "(a) £86 pan na fo'r incwm perthnasol yn uwch na £12,864; a
 - (b) £44 pan fo'r incwm hwnnw'n uwch na £12,864, ond nad yw'n uwch na £13,861."

(3) Yn rheoliad 4—

- (a) ym mharagraff (3), yn lle "£12,483", rhodder "£12,877"; a
- (b) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn lle "£12,483", rhodder "£12,877"; a
 - (ii) yn lle "£12,304", rhodder "£12,698".

(3) In paragraph (2) above, a "relevant question" means a question under the Education (Incidental Expenses) Regulations 1997(1) as to whether the parents of an assisted pupil are entitled to a uniform grant under Part II, or a travel grant under Part III, of those Regulations and which—

- (a) arises in respect of a school year beginning on or after 1 September 2007; and
- (b) has not been determined at the date on which these Regulations come into force.

Amendment of the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

2. At the end of paragraph (3) of regulation 1 of the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2006(2), there is inserted "provided that the question is not one referred to in paragraph (3) of regulation 1 of the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2008".

Amendment of the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997

3.—(1) The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997 are amended as follows.

(2) In regulation 2—

- (a) in paragraph (2), substitute "£13,861" for "£13,431";
- (b) in paragraph (3), for sub-paragraphs (a) and (b) substitute—
 - "(a) £86 where the relevant income does not exceed £12,864; and
 - (b) £44 where that income exceeds £12,864, but does not exceed £13,861."

(3) In regulation 4—

- (a) in paragraph (3), substitute "£12,877" for "£12,483"; and
- (b) in paragraph (4) substitute—
 - (i) "£12,877" for "£12,483"; and
 - (ii) "£12,698" for "£12,304".

(1) O.S. 1997/1969. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1939 (Cy. 137), O.S. 2001/2708 (Cy. 227), O.S. 2002/1880 (Cy. 189), O.S. 2003/1779 (Cy.193), O.S. 2004/1807 (Cy.195) ac O.S. 2005/2837 (Cy. 201).

(2) O.S. 2006/3098 (Cy. 282).

(1) S.I. 1997/1969. Relevant amending instruments are S.I. 1998/1585, S.I. 1999/1505, S.I. 2000/1939 (W. 137), S.I. 2001/2708 (W. 227), S.I. 2002/1880 (W. 189), S.I. 2003/1779 (W.193), S.I. 2004/1807 (W.195) and S.I. 2005/2837 (W. 201).

(2) S.I. 2006/3098 (W.282).

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a
Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Children, Education, Lifelong Learning
and Skills, one of the Welsh Ministers

26 Chwefror 2008

26 February 2008

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2008 Rhif 510 (Cy.46)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth
Lleoedd) (Mân Dreuliau)
(Diwygio) (Cymru)
2008

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No. 510 (W.46)

EDUCATION, WALES

The Education (Assisted Places)
(Incidental Expenses)
(Amendment) (Wales) Regulations
2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W261/03/08

ON